

DIAGNOSIS GWELL, GOFAL GWELL, BYWYDAU GWELL:

Trawsnewid dealltwriaeth o glefyd Crohn a Cholitis yng Nghymru

**CROHN'S &
COLITIS UK**

YNGLŶN Â CHLEFYD CROHN A CHOLITIS

Mae clefyd Crohn a Cholitis ill dau yn achosi llid yn y perfedd ac yn achosi ystod eang o symptomau poenus a blinedig gan gynnwys gwaed mewn baw, poen stumog difrifol, blinder llethol a dolur rhydd aml, ar fyr rybudd. I lawer o bobl, mae'r symptomau hyn yn mynd a dod, gan wneud bywyd yn anrhagweladwy a chynllunio bron yn amhosibl.

Mae dros 26,000 – 1 o bob 120 – o bobl yng Nghymru yn byw gyda Chlefyd Crohn neu Golitis. Mae'r effaith ar y GIG yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Mae cost gofal i rywun â Chlefyd Crohn neu Golitis bellach yn debyg i ganser a chlefyd y galon.

Fodd bynnag, mae adnoddau annigonol a gwasanaethau iechyd nad ydynt yn cael eu hariannu'n ddigonol yn golygu y gall miloedd o bobl fynd heb y driniaeth sydd ei hangen arnynt, gan arwain at gymhlethdodau difrifol, derbyniadau i'r ysbyty y gellir eu hosgoi a llawdriniaethau brys.

DIAGNOSIS MEWN WYTHNOSAU, NID BLYNYDDOEDD

Dylai diagnosis gymryd wythnosau, ond mae gormod o bobl yn treulio blynyddoedd mewn drysfa o oedi, camgyfeirio a llwybrau ofer.

Mae yna gost i bob oedi. Mae'n rhoi bywydau pobl i'r naill ochr, yn gadael pobl mewn poen a gall arwain at gymhlethdodau difrifol a llawdriniaethau brys diangen.

Mae un o bob tri yn aros dros flwyddyn, gyda symptomau gwanychol, i weld gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ac roedd un o bob pump yn aros dros chwe mis rhwng yr atgyfeiriad a chael diagnosis.

BETH SY'N RHAID EI NEWID

Dylai arweinwyr Llywodraeth Cymru a'r GIG:



Godi ymwybyddiaeth yn gynnar:

Partneru ag elusennau i godi ymwybyddiaeth o symptomau a lleihau oedi a achosir gan gleifion nad ydynt yn adnabod yr arwyddion: Dylai hyn gynnwys ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus, a dwyn ynghyd gwybodaeth ar gyfer archwilwyr symptomau, gan gynnwys y ffyrdd y mae pobl yn siarad am symptomau tabŵ neu rai sydd â stigma'n gysylltiedig â nhw.



Datgloi'r dagfa o ran endosgopi:

Sicrhau bod polisi a chyllid endosgopi yn cydnabod y rôl hanfodol y mae'n ei chwarae wrth wneud diagnosis o gyflyrau nad ydynt yn ganseraidd fel Clefyd Crohn a Cholitis. Cyflwyno rhestrau endosgopi wedi'u neilltuo ar gyfer y sawl yr amheuir eu bod yn dioddef o Glefyd Crohn neu Golitis, hyfforddi staff, ehangu capasiti a lleihau amseroedd aros.

MAE UN O BOB TRI

**YN AROS DROS
FLWYDDYN**

**I WELD GWEITHIWR GOFAL
IECHYD PROFFESIYNOL**



DIAGNOSIS GWELL, GOFAL GWELL, BYWYDAU GWELL:

Trawsnewid dealltwriaeth o glefyd Crohn a Cholitis yng Nghymru

NID CAEL EU GWELD YN UNIG, OND CAEL EU GWELD GAN ARBENIGWR

Mae Clefyd Crohn a Colitis yn gyflyrau hirdymor cymhleth ac anrhagweladwy. Yng Nghymru, mae dros chwarter yr oedolion sy'n byw gyda'r cyflyrau wedi dioddef tair pwl ponus neu fwy yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae gofal effeithiol yn gofyn am dîm amlddisgyblaethol medrus, a mynediad cyflym at gyngor arbenigol i gefnogi pobl i fyw'n dda.

Fodd bynnag, mae gwasanaethau Clefyd Llid y Coluddyn (IBD) o dan bwysau annioddefol. Nid oes unrhyw wasanaeth yng Nghymru yn bodloni'r Safonau IBD ar gyfer staffio.

Nid oes gan lawer o feddygon teulu yr hyder i reoli cleifion pan fyddant yn cael pyliau o'r clefyd. Mae gormod o gleifion yn wynebu diffyg cyfathrebu, yn gorfod chwilio am atebion a heb gefnogaeth.

BETH SY'N RHAID EI NEWID

Dylai arweinwyr Llywodraeth Cymru a'r GIG:



Ddatblygu cynllun gweithlu hirdymor ar gyfer IBD, gan gefnogi gwasanaethau i gyflawni'r Safonau IBD ar staffio ar gyfer pob aelod o'r tîm amlddisgyblaethol, a darparu gofal effeithiol o ansawdd uchel i gleifion ar bob cam o'u taith.

Darparu cyllid wedi'i dargedu ar gyfer **recrwtio, cadw a hyfforddi mwy o Nyrsys IBD Arbenigol**, gan sicrhau bod yr holl wasanaethau yn bodloni'r lefelau staffio a argymhellir, gan flaenoriaethu'r meysydd sydd â'r angen mwyaf. Mae hyn yn hanfodol er mwyn gwella cyfathrebu â chleifion a chydlynu gofal, mynediad at ofal arbenigol, lleihau amseroedd aros ac atal derbyniadau i'r ysbyty y gellir eu hosgoi.

Gwella mynediad at gymorth seicolegol a deietegol arbenigol sy'n diwallu anghenion pobl sy'n byw gyda chyflyrau hirdymor i gefnogi pobl â Chlefyd Crohn neu Golitis i fyw'n dda.

GWELLA MYNEDIAD I DOILEDAU

Mae'r diffyg a'r diffygion cynyddol mewn darpariaeth toiledau cyhoeddus yng Nghymru yn cynyddu unigedd, gorbryder ac allgáu, gan atal pobl rhag mynd allan, gweithio, neu gymryd rhan mewn bywyd bob dydd. Mae un o bob tri o bobl sy'n byw gyda Chlefyd Crohn neu Golitis yn osgoi defnyddio trafndiaeth gyhoeddus drwy'r amser oherwydd eu bod yn ofni efallai na fyddant yn cyrraedd toiled mewn pryd.

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda llywodraeth leol, busnesau a darparwyr trafndiaeth i:

Wella mynediad i doiledau, gan gynnwys gwybodaeth ddibynadwy fel y gall pobl gynllunio, ac arwyddion 'Nid yw Pob Anabledd yn Weladwy' a chydabyddiaeth o 'Gardiau Methu Aros', fel bod pobl â Chlefyd Crohn neu Golitis yn gallu cael mynediad i doiledau heb ofn stigma neu gamdriniaeth.



CYSYLLTU Â NI

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Chloe Hutchinson

Uwch Swyddog Polisi a Materion Cyhoeddus

✉ policy@crohnsandcolitis.org.uk